Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

Mehefin 2020

## 1. Cefndir

**1.** Cafodd Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 (y Rheoliadau)[1] eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar 27 Ebrill 2020 a'u gosod gerbron Senedd y DU ar 28 Ebrill 2020. Daeth y Rheoliadau i rym ar 30 Ebrill 2020.

**2.** Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, os yw Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**3.** Ar 4 Mai 2020, gosododd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm) gerbron y Senedd[2] ar gyfer y Rheoliqdau, yn unol â Rheol Sefydlog 30A. Ar yr un diwrnod, ysgrifennodd y Gweinidog i'n hysbysu am y Memorandwm.[3]

[1] Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

[2] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

[3] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 4 Mai 2020

# 2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

**4.** Mae'r Memorandwm yn nodi'r canlynol:

> "Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol sydd eu hangen o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ("Deddf 2020").
>
> Gwnaeth Deddf 2020 ymgorffori deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE ar y Diwrnod Ymadael – yn hytrach nag ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau yr ymdrinnir â deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn yr un modd â deddfwriaeth o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018")."[4]

**5.** Mae'r Memorandwm hefyd yn esbonio bod y Rheoliadau "yn amrywio o ran y tiriogaethau y maent yn berthnasol iddynt". Mae'n nodi'r canlynol:

> "Mae Deddf Dehongli 1978 a Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. O ran y diwygiad sy'n ymwneud â Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae Rheoliad 4 yn berthnasol i Gymru yn unig."[5]

**6.** Mae paragraffau 8 a 9 o'r Memorandwm yn nodi'r darpariaethau sydd i'w gwneud gan y Rheoliadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer.

**7.** Mae Rheoliadau 2, 3 a 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r canlynol:

- Deddf Dehongli 1978;
- Deddf Offerynnau Statudol 1946;
- Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

**8.** Dywed y Memorandwm fod y darpariaethau hynny "yn fater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."[6]

**9.** Mae paragraffau 10 ac 11 o'r Memorandwm yn esbonio pam, ym marn Llywodraeth Cymru, y mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y darpariaethau hyn.

**10.** Mae'r Memorandwm yn nodi'r canlynol:

---

[4] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraffau 3-4

[5] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 6

[6] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 9

> "Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ac yn gymesur ymdrin â'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn, oherwydd ehangder y tiriogaethau y mae'r deddfiadau sy'n cael eu diwygio yn berthnasol iddynt. Hefyd, mae gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol mewn un offeryn yn helpu i hyrwyddo hygyrchedd y gyfraith yn ystod y cyfod hwn o newid."[7]

# 3. Trafodaeth

**11.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 18 Mai 2020.[8]

# 4. Casgliad

**12.** Rydym yn fodlon ar y Memorandwm.

**13.** Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog yn ei llythyr atom dyddiedig 4 Mai 2020.

**14.** Nodwn nad yw llythyr y Gweinidog yn cadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig ar gyfer dadl mewn perthynas â'r Memorandwm hwn. Fodd bynnag, rydym yn deall mai dyma yw bwriad y Gweinidog, ac rydym yn croesawu hyn.

[7] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 11

[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Mai 2020